

Cofnodion cyfarfod 7/11/2019

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Alun Price, Mabon Rhys, John Caradog Williams

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Maer a derbyniwyd ymddiheuriadau Tony Parry a Carol Rowlands
2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Alun Price ym Mater 5, adroddiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 3/10/19.
4. **Materion y Clerc:** Tocio coed - derbyniwyd ymateb gan NMWTRA eu bod yn archwilio coed y Stryd Fawr yn fuan a dilynir hyn gan waith tocio os bydd angen. Cytunwyd i geisio ymateb yr ecolegydd gan ofyn am dynnu'r goleuadau o'r 6 coeden sydd yn parhau gyda goleuadau cyn gwneud y gwaith tocio. Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan gadw golwg ar y mater. Mae amryw o'r goleuadau wedi cael eu difrodi pan dociwyd y coed o'r blaen a gwneir cais i fod yn hynod ofalus y tro hwn.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Dywedodd bod yr awdurdodau'n cydnabod bellach bod gwendid yn y safonau diogelwch ar y man croesi rhwng Heol y Domen a Heol Ffrydan. Mae angen ail-osod marciau a bwriedir rhoi wyneb newydd er mwyn ceisio tynnu sylw gyrwyr at y groesfan. Mae angen monitro'r sefyllfa a chodi ymwybyddiaeth. Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei ymdrechion ar fater y mae'r Cyngor Tref wedi bod yn gohebu yn ei gylch ers cryn amser. Dywedodd y Cynghorydd ei fod wedi holi beth sy'n digwydd i adeiladau Neuadd Buddug ac Ysgol Bro Tegid; bydd yn parhau i geisio cael atebion.
6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad ar welliannau i arglawdd Llyn Tegid a rhoddwyd sylwadau arnynt. Cytunwyd i anfon yr ymatebion i Gyfoeth Naturiol Cymru gan dynnu eu sylw hefyd i'r angen statudol ar Gynghorau Cymuned i ychwanegu at fioamrywiaeth; mae cyfle wrth wneud y gwelliannau i arglawdd y Llyn a'r cyffiniau i greu cynefin a fydd yn cynnal bioamrywiaeth.
7. **Is-bwyllgor y Nadolig:** Cytunwyd i anfon llythyr at fusnesau'r dref am gostau goleuo coed y Stryd Fawr a'r rhwystrau i gadw ac ychwanegu at yr hyn sydd yn parhau ar ôl y tocio diwethaf gan NMWTRA (North and Mid Wales Trunk Road Agency) sydd yn gyfrifol am y Stryd Fawr/A494. Cytunwyd i wneud cais i Lywodraeth Cymru am drwydded i oleuo'r coed, yn y gobaith na fydd y goleuadau wedi cael eu difrodi yn y cyfamser. Cytunwyd i ofyn i Heledd Roberts dynnu lluniau o enillwyr cystadlaethau'r Cyngor ar y Noson Siopa Hwyr.
8. **Grŵp Busnes:** Nid oedd adroddiad y tro hwn.

9. **Triathlon:** Derbyniwyd adroddiad o'r cyfarfod diweddar gan Sharon Evans ac roedd y cynrychiolwyr yn hapus iawn fod y trefniadau wedi newid i gynnal y digwyddiad ym mis Medi a chau'r ffordd ar y bore Sul yn unig.

10. **Materion Cynllunio:** Nid oedd cais.

11. Materion Cyllid:

i. Derbyniwyd gwybodaeth fanwl am y sefyllfa ariannol bresennol.

ii. Cytunwyd i dalu

rhent yr ystafell gyfarfod i Ganolfan Henblas - £418

aelodaeth SLCC (rhannu gyda chynghorau Llanuwchllyn a Llangywer) £44

gwasanaeth archwilio Cyngor Gwynedd - £252

cyflog y Clerc.

12. Gohebiaeth:

i. Derbyniwyd gwahoddiad i agoriad swyddogol Ysgol Godre'r Berwyn 8/11/19; anfonwyd cyfarchion a dymuniadau'r Cyngor at y Wasg gan y Clerc.

ii. Nodwyd derbyn Adroddiad o weithdy ar fioamrywiaeth

iii. Derbyniwyd Ymholiad oddi wrth Wales on Line am y cyfeillio a fu rhwng Y Bala a thref o'r enw Bala yng Nghnada. Cytunodd Rhys Evans i holi cyn aelodau'r Cyngor.

iv. Cais am gyfraniad i Dreialon Cŵn Defaid Cenedlaethol – gohiriwyd tan fis Chwefror.

v. Gwynedd: Trafodwyd lythyr oddi wrth Cyngor Gwynedd yn holi a fyddai'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb dros feysydd chwarae Y Grîn a Blaenddol. Cytunwyd y byddai hwn yn fater i ystyriaeth Partneriaeth Penllyn.

vi. Gwynedd: derbyniwyd e-bost brys bod angen cau'r ffordd yng Nghraig y Fron oherwydd yr angen i drwsio peipen ddŵr.

13. **Partneriaeth Penllyn:** gyda brwdfrydedd derbyniwyd gwahoddiad i Noson Gymdeithasol ar 14/11/19 pryd y disgwylir clywed am waith Canolfan Ni, Corwen, a thrafod sut y gellir symud ymlaen ym Mhenllyn.

14. **Asedau'r Cyngor:** Dywedodd John C Williams y byddai'n holi eraill am y gwaith trwsio sydd angen ei wneud ar hysbysfwrdd y Domen.

15. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref** *Dim*

16. Cadarnhawyd trefniadau Sul y Cofio. Diolchwyd i John C Williams am chwynnu a glanhau wrth y Gofeb eleni eto.

17. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 12/12/2019 am 6.30pm

Amser gorffen: 8.30pm